627

CAN NEWYDD

YN COSBI'S ALLAN

Y MODD ARSWYDUS

Y Llofruddiodd W. Baker

o Blwyf [illegible], Sir [illegible]

ei Wraig a 4 o Blant,

Ar nos y pumed o Ragfyr, pan yn ei feddwdod, yn nghyd a thori ei wddf ei hunan yr un nos-waith, o'r varedigaeth a gafodd ei fab henaf, naw mlwydd oed, trwy ddianc o'i afaelion.

Nesawch yn awr y cymry hawddgar,
Yma i wrando yn ewyllysgar;
Traethaf hanes gweithred hynod,
Gyflawnodd dyn pan yn ei feddwdod.

'Roedd gwr a'i enw William Baker,
Yr hwn a allasai fyw mewn llawnder;
Mewn pentref bach yn swydd Gaerefrog,
Ond trof a wnaeth yn llofrudd llidiog.

Gwraig a phump o blant oedd gandd
Yn dlawd heb geli gallwch goelio :
Gwisgoedd carpiog oedd am danynt,
Naw mlwydd oed oedd yr henaf o honynt.

Y tad a fyddai yn feddwyn ffiaidd,
Yn gwario ei arian ar oferedd ;
Tori'r sabbath gogoinebu,
Neb iedwl dim am dduda y cytri.

Ei briod fyddai yn erfyn arno,
Am droi pob hen oferedd heibio,
Ond nid oedd ef yn gwrando arni,
Dilynau yn mlaen yn ffyrdd drygieni.

Golwg wael oedd ar ei annedd,
Ar 'chydig wellt y gwnaeth hwy orwedd ;
Ei ddodrefn goreu wedi ei gwerthu,
A'i wraig a'i blant oedd ar newyni.

Rhyw nos daeth adref wedi meddwi,
Mewn arswyd mawr yr oedd ei deulu,
Ac yntau yn tyngu erchyll lwon,
Y gwnai ei lladd mewn modd echryslon.

Mewn darn o haiarn yr ymaflodd,
A phen ei wraig pryd hyn a holltodd ;
A'r plant yn gwaeddi yn ddychrynllyd,
O'n tad gadewch i ni ein bywyd.

Y205 2 J6129

Ni wrandawai y filain ciaidd,
Ond dal i guro yn ddidrugaredd,
Nes oedd ei hesgyrn yn cwhil-frywio,
O weithred galed gellwch goelio.

Ei fachgen henaf naw mlwydd oedran,
Mewn rhyw fodd diangodd allan:
Hwn a gafodd waredigaeth,
Trwy drefen ddoeth ein Duw rhagluniaeth.

Dywedodd wrth yr holl gym'dogion,
Dewch i wel'd y gwaith echryslon,
Fy mam a'm brawd a'm tair chwaer hefyd,
A laddodd nhad mewn modd dychrynllyd.

Pan yr aethant yno yn sydyn.
Pryd hyn y llofrudd gafodd ddychryn,
Tyni wnaeth ei gyllell allan,
A thorodd ef ei wddf ei hunan.

O mor erchyll y glanastra,
I lygad dynol wel'd y lladdfa?
Chwech o gyrff a'r lawr yn gorwedd,
Yn ei gwaed yn ddiymgeledd.

Yr oedd ef wedi hollti eu pennau,
Ei cluniau, a'u breichiru oedd yn ddarnau,
Wedi rhwygo ei hymysgaroedd,
A'u gwaed ar hyd y llawr yn llynoedd,

'Roedd rhaid fod ganddo galon galed,
Pan y cyflawnodd y fath weithred,
Lladd ei hunod wraig ei hunan;
Ynghyd a'i bedwar plentyn bychan,

'Nol y trengholiad gyda galar,
Eu cyrff a roddwyd yn y ddaear;
'Roedd ei gyfeillion a'i perth'nasau,
Yno i gyd yn tywallt dagrau.

A'r bachgen bach ca'dd waredigaeth,
Fo'n rhoddi clod i Dduw rhagluniaeth,
Am iddo ef i gadw ei fywyd,
Rhag cael ei ladd mewn modd dychrynilyd

Gweddiwn ninnau ar yr Arglwydd,
Am iddo ein cadw oll mewn sobrwydd;
I fywm ewn gobaith ffydd a chariad,
Amen yn awr yw ein llwyr ddymuniad,